




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu

Cysylltiadau Rhyngwladol drwy
Ddiplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell
Tawel 2020-2025



Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chyd-destun	3
2. Codi Proffil Cymru sy'n Gyfrifol ar Iefel Fyd-eang	5
<ul style="list-style-type: none">• Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol• Cynaliadwyedd Amgylcheddol• Tegwch, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth• Diplomyddiaeth Ddiwylliannol• Y Gymraeg• Diplomyddiaeth drwy Chwaraeon• Addysg ac Ieuencid• Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesedd (Diplomyddiaeth drwy Wyddoniaeth)	
3. Cyfathrebu a Brandio	15
4. Llywodraethiant a Gweithio gydag eraill	16
5. Gwerthuso a Monitro	17
6. Casgliad	18

Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae ein Strategaeth Ryngwladol¹, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn nodi ein huchelgais i wneud y canlynol:

- Codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol;
- Tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiadau o'r tu allan;
- Sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Wrth gyflawni'r nodau hyn, mae ein strategaeth yn rhoi pobl Cymru a'n gwerthoedd yn y canol. Ein pobl yw ein llysgenhadon a'n storiwyr gorau. Mae ein timau chwaraeon, ein hactorion, ein cantorion, ein myfyrwyr a llawer o gymdeithasau ac unigolion eraill i gyd yn cyfrannu at ein henw da yn fyd-eang ac yn adrodd hanes Cymru i'r Byd.

Mae llawer o'r ysgogiadau dylanwadol hyn y tu allan i'r llywodraeth ac mae ein strategaeth yn cydnabod hynny. Er mwyn gwireddu ein huchelgais, ni all y llywodraeth weithio ar ei phen ei hun, ac ni ddylai wneud chwaith. Rhaid i'r Llywodraeth gydweithio â phartneriaid – gartref a thramor – i ymhelaethu ar stori Cymru a chodi ein proffil dramor. Drwy weithio gyda'n sectorau rhyngwladol, diwylliannol, addysgol a chwaraeon, gallwn wneud Cymru'n fwy cystadleuol a mwy adnabyddus ar y llwyfan fyd-eang a dod â budd i bobl Cymru, y byd ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae cymell tawel yn derm a ddefnyddir yn aml i gyfeirio at ymgysylltiad rhyngwladol o'r math hwn, ffordd o adeiladu ar enw da gwlad drwy ddiwylliant, chwaraeon, diplomyddiaeth a chyfraniad fyd-eang cadarnhaol a all hefyd helpu i gryfhau masnach a thwristiaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth gwrs yn y cyd-destun datganoledig, o gofio nad oes gennym y dulliau traddodiadol o bolisi tramor ar lefel cenedl-wladwriaeth. Er bod y term yn ddefnyddiol yn gyffredinol, nid yw heb ei feirniaid. Gellid dadlau bod y Gymraeg **cymell tawel** yn well na'r term Saesneg **soft power** ac yn mynd at wraidd yr hyn rydym yn ceisio'i wneud – **mynd ati'n dawel i berswadio, ysgogi, dylanwadu a denu**. Nid yw'r gair pŵer yn arbennig o briodol mewn llawer o achosion chwaith Rydym yn delio â chysylltiadau diwylliannol, partneriaethau a dinasyddion sy'n ymgysylltu'n fyd-eang. Mae'r cysylltiadau hyn yn seiliedig ar ymddiriedaeth ac ar fudd i'r naill ochr a'r llall, at ddiben cyfrannu at les lleol a fyd-eang – nid oes a wnelont â dynameg pŵer. Felly, at ddibenion y cynllun hwn, byddwn yn defnyddio'r term diplomyddiaeth gyhoeddus.

Ers cyhoeddi ein strategaeth, mae'r byd wedi newid yn sylweddol. Mae argyfwng COVID-19 wedi cael effaith ddfn arnom i gyd, a bydd hynny'n parhau. Mae wedi taflu golau ar anghydraddoldeb a llesiant byd-eang ac mae wedi ysgwyd economïau'r byd, gan effeithio ar bob sector, gan gynnwys ein sectorau diwylliannol, twristiaeth, chwaraeon ac addysg. Mae wedi golygu bod rhaid i ni feddwl a gweithio'n wahanol. Mae'r dicter a deimlwyd am farwolaeth George Floyd hefyd wedi tynnu sylw at anghydraddoldeb, wedi amlygu'r angen i wynebu ein hanes ein hunain ac ystyried beth arall y gallwn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ein hymrwymiad i Ewrop a'n partneriaid Ewropeaidd yn parhau'n gryf ac yn ddigryfnewid, ond mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn newid y fframwaith rydym wedi gweithredu ynddo ers datganoli a bydd angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n cymdogion Ewropeaidd².

Nid oes amheuaeth nad yw'r dirwedd ryngwladol yn heriol, ond dywed hanes wrthym y bydd Cymru'n addasu wrth i'r byd newid. Mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen i ni adrodd ein stori i'r byd, i estyn allan mewn undod â'n partneriaid allweddol ac i gryfhau ein cysylltiadau strategol wrth i ni ddod allan o gyfnod eithriadol yn ein hanes. Rydym mewn sefyllfa dda drwy'r gwerthoedd sy'n sail i'n strategaeth a'n deddfwriaeth arloesol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n canolbwyntio ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, i gyfrannu at y ddeialog fyd-eang wrth i ni geisio adfer, ailadeiladu ac ailddyfeisio. Nid yw'r heriau sy'n ein hwynebu yn unigryw i Gymru – mae newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldeb a COVID-19 yn heriau sy'n cael eu rhannu'n fyd-eang. Mae cydweithredu rhyngwladol yn hanfodol er mwyn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Gydag adnoddau cyfyngedig a phwysau cynyddol ar gyllidebau, bydd cydweithio'n hanfodol, a dyma fydd yr unig ffordd y gallwn luosi ein hymdrechion a gwneud synnwyr o'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n rhan o gyfres o gynlluniau gweithredu sy'n rhan o Strategaeth Ryngwladol Cymru, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ar Berthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol â Blaenoriaeth, y Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar, y Cynllun Gweithredu ar Gymru ac Affrica a'r Cynllun Gweithredu ar Allforio. Drwy ymdrechion cydategol a chyson ar draws yr holl feysydd hyn, gallwn gael effaith wirioneddol.

¹ Strategaeth Ryngwladol i Gymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/strategaeth-ryngwladol-i-gymru.pdf>


² Bydd y Cynllun Gweithredu ar Berthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol yn amlinellu sut y bwriadwn ddatblygu ein Cysylltiadau a'n Rhwydweithiau Rhanbarthol Ewropeaidd allweddol ymhellach

Ein Gweledigaeth yw:

Sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, i'n gwneud yn fwy cystadleuol ac adnabyddus ac yn bartner y gellir ymddiried ynddo ar y llwyfan byd-eang er mwyn dod â budd i bobl Cymru.

Ein Cenhadaeth yw:

- Cadarnhau'r cysylltiadau presennol drwy sefydlu partneriaethau strategol â phartneriaid allweddol yng Nghymru i gysoni gweithgareddau yn rhyngwladol dros y pum mlynedd nesaf – gan gyflawni mwy gyda'i gilydd.
- Annog cydweithio rhyngwladol â'n cysylltiadau â blaenoriaeth yn fyd-eang, gan adeiladu ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a Datganiadau o Fwriad sydd gennym ni'n barod i gyflawni ein Strategaeth Ryngwladol.
- Addasu i gyd-destun newidiol COVID-19, gan gynnwys cefnogi ffyrdd arloesol o ymgysylltu'n rhyngwladol drwy weithgarwch digidol a ffocws ar gyfuddiannu, llesiant a chhydraddoldeb.
- Annog ethos Tîm Cymru drwy sefydlu strwythur llywodraethu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu hwn.
- Sicrhau perthynas strategol â'r Swyddfa Dramor, Cymanwlad a Datblygu newydd yn y DU a thramor sy'n cyflawni er budd pobl Cymru.



Codi proffil Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

Yn sicr, dydyn ni ddim yn dechrau ar dudalen wag. Mae Cymru wedi cyfrannu llawer i'r byd ac mae ganddi enw da sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'w ffiniau, diolch i'n sgiliau ym maes chwaraeon, harddwch naturiol ein gwlad, ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth unigryw a'n gwerthoedd Cymreig³. Mae gennym Strategaeth Ryngwladol sy'n glir ynghylch ei hamcanion. Rydym am adeiladu ar hyn drwy'r cynllun gweithredu hwn a datblygu'r ffordd rydym ni'n cyflwyno ein hunain yn rhyngwladol. Mae'r holl feysydd a nodir yn y cynllun hwn yn gydgyssylltiedig – mae diplomyddiaeth gyhoeddus yn aml yn defnyddio amrywiaeth o sectorau ar y cyd i sicrhau'r effaith fwyaf posibl, sydd hefyd yn cefnogi masnach, buddsoddi a thwristiaeth.

Agenda Datblygu Cynaliadwy Byd-Eang 2030 – Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nododd Amcanion Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig agenda uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid y byd er budd pobl, y blaned a ffyniant. Rydym yn rhannu'r uchelgais hwn yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i wneud ein cyfraniad at yr amcanion.

Mae Cymru'n wlad fach sydd ag uchelgais fawr. Rydym am gael ein hystyried ymhlith gwledydd mwyaf cyfrifol y byd, gan adeiladu ar draddodiadau hir o ryngwladoldeb a phryder am degwch, a ffocws ar bobl a'r blaned. Ers 2015, mae ein deddfwriaeth datblygu cynaliadwy wedi ysgogi camau gweithredu a thrafodaeth ynghylch sut y gallwn drawsnewid Cymru i fod yn genedl fwy cynaliadwy. Sefydlwyd Comisiynydd Annibynnol cyntaf y byd gennym, ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru i fod yn eiriolwr hirdymor ac i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Mae ein **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** arloesol yn darparu'r fframwaith i ni adrodd hanes Cymru i'r byd, hyrwyddo ein delfrydau, ein credoau, ein gwerthoedd a'n dyletswydd i fod yn Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. I ddefnyddio ein hasedau mewn ysbryd o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth sy'n nodweddu agenda Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ni yw'r unig genedl – hyd yn hyn – i drosi Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn gyfraith. Mae'n unigryw i Gymru ac mae'n rhoi cyfle inni ymgysylltu â llywodraethau, rhanbarthau a sefydliadau yn fyd-eang sydd â diddordeb mewn datblygu deddfwriaeth a dulliau gweithredu tebyg. Wrth i'r byd ganolbwyntio ar y #DegawdGweithredu tuag at Agenda 2030, yma yng Nghymru rydym mewn sefyllfa dda i arwain y ffordd a dysgu oddi wrth eraill.

Mae Cymru'n arloesi dull llesiant drwy'r Ddeddf a bu diddordeb rhyngwladol enfawr eisoes gan wledydd fel Iwerddon, Canada, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Seland Newydd, yr Almaen a Ffrainc a chyrrff rhyngwladol fel y Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Rydym am adeiladu ar hyn a hyrwyddo ein dull llesiant yn ein gwaith rhyngwladol. Mae'r Ddeddf yn rhoi llais i ni'n fyd-eang a, heb fod yn hunanfodlon, mae'n rhoi cyfle inni arwain, sydd ar yr un pryd yn gyfrifoldeb mawr.

Ein Camau Gweithredu Tymor byr (2020-21)

- Byddwn yn cytuno ar gynllun gweithredu ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gysoni gweithgareddau'n rhyngwladol, gan ddefnyddio cysylltiadau yn y Cenhedloedd Unedig a llwyfannau fel Expo y Byd Dubai a COP26 i hyrwyddo a dangos sut y gall dull llesiant cenedlaethau'r dyfodol helpu i sbarduno gweithredu cadarnhaol ar broblemau mwyaf y byd.
- Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad "Dyma'r Dyfodol" a gynhaliwyd yn Berlin yn gynharach eleni fel rhan o Gymru yn yr Almaen 2021.
- Byddwn yn parhau â'n gwaith ar y cyd ag Iwerddon ac yn adeiladu ar ymweliad cyntaf cynrychiolwyr Academi Arweinwyr y Dyfodol â Dilyn a'r berthynas barhaus gyda chynrychiolwyr Ieuentid y Cenhedloedd Unedig yn Iwerddon. Byddwn yn adeiladu ar ffocws Cenedlaethau'r Dyfodol yng ngweithgarwch Dydd Gŵyl Dewi eleni yn Iwerddon drwy gydweithredu parhaus ac ymrwymiad cyffredin tuag at Gynaliadwyedd, a fydd yn cael ei adlewyrchu yn ein Datganiad o Fwriad ar y cyd ag Iwerddon.

³ Tud. 6 Atodiad D y Strategaeth Ryngwladol <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/strategaeth-ryngwladol-i-gymru.pdf>

Tymor canolig (2022-25)

- Byddwn yn adeiladu ar y rôl y gall Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol ei chwarae wrth hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ledled y byd.
- Byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol yn rhwydwaith Regions4SD, gan rannu ac ymgysylltu gyda llywodraethau rhanbarthol ac is-genedlaethol sydd wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy.
- Byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant, gan rannu profiad Cymru gyda gwledydd eraill i roi llesiant wrth wraidd ein heconomi.
- Bydd ein swyddfeydd rhyngwladol yn nodi cyfleoedd i hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn gwledydd yn flynyddol.
- Byddwn yn rhoi ffocws Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd ein hymgysylltiad parhaus â'r UE, a'i Aelod-wladwriaethau a'i ranbarthau, ym Mrwsel.



Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae ymrwymiad Cymru i sefydlu ei hun fel **cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** (<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/cymru-syn-gyfrifol-ar-lefel-fyd-eang-ffeithlun.pdf>) hefyd yn amlwg drwy ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd – ni oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd a'n gobaith oedd y byddai'r datganiad yn sbarduno ton o weithredu gartref ac yn rhyngwladol. Yn dilyn y datganiad, rydym wedi derbyn cyngor ein corff cyngori annibynnol i gynyddu targed lleihau allyriadau 2050 Cymru i 95%. Mae ein ffigurau diweddaraf yn dangos ein bod wedi lleihau allyriadau 31% yn erbyn allyriadau gwaelodlin. Mae her newid yn yr hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb weithredu'n lleol ac yn rhyngwladol.

Mae Cymru'n un o sylfaenwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Dan2, ac mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn aelod o'r grŵp llywio. Mae'r gynghrair yn cynnwys mwy na 200 o lywodraethau sy'n cynrychioli dros 1.3 biliwn o bobl a bron i 40% o'r economi fyd-eang. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Cymru wedi bod yn aelod arwyddocaol ac wedi dangos arweiniad ac ymrwymiad rhyngwladol. Mae'r Cynghrair Dan2 wedi rhoi llais a llwyfan cryf ar gyfer gweithredu ar y cyd gan lywodraethau is-genedlaethol.

Mae gan Gymru gynlluniau uchelgeisiol i symud i gymdeithas garbon isel, i wella ansawdd aer ac i leihau gwastraff. Mae Cymru eisoes yn ailgylchu mwy nag yn unman arall yn y DU ac rydym o fewn trwch blewyn i fod y wlad sy'n ailgylchu fwyaf yn y byd. Mae ein penderfyniad i fynd i'r afael â'r materion hyn wedi'i gryfhau yn hytrach na'i wanhau yn sgil effeithiau diweddar y pandemig COVID-19. Wrth inni ddod allan o effeithiau'r pandemig hwn, rydym eisieu gwneud hynny mewn ffordd sy'n arwain at Gymru decach, wyrddach a mwy ffyniannus. Felly, mae Cymru mewn sefyllfa dda i gyfrannu a rhannu ein profiadau'n rhyngwladol, ac i ddysgu oddi wrth eraill.

Ein Camau Gweithredu Short Term (2020-21)

- Byddwn yn parhau i fod yn aelod gweithgar o Grŵp Llywio Cynghrair Dan2 ar gyfer Ewrop, cymuned fyd-eang llywodraethau gwladol a rhanbarthol sydd wedi ymrwymo i weithredu'n uchelgeisiol ar yr hinsawdd yn unol â Chytundeb Paris.
- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ac â'n dinasyddion gwerthfawr wrth i ni weithio i ddatblygu a chyflawni ein hail Gynllun Cyflawni Carbon Isel a chwarae rhan lawn yng Nghynhadledd y Cenedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd, **COP26**.
- Drwy gamau gweithredu a amlinellir yn y **Cynllun Gweithredu ar Gymru ac Affrica** byddwn yn helpu i fynd i'r afael â'r effaith ddinistriol y mae newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar rannau o gyfandir Affrica.
- Mewn ymateb i'r argyfwng yn yr hinsawdd, byddwn yn codi uchelgais ein targedau allyriadau, ac yn cynyddu targed lleihau allyriadau 2050 Cymru i 95%. Byddwn yn gofyn i Senedd Cymru roi hyn mewn cyfraith.

Tymor Canolig (2022-25)

- Byddwn yn rhannu ein profiad a'n dysgu drwy ein rhwydweithiau rhyngwladol presennol, drwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'n Datganiad o Fwriad gyda phartneriaid allweddol.
- Byddwn yn dangos i'n partneriaid rhyngwladol sut rydym ni wedi mynd o'r wlad waethaf o ran ailgylchu i un o'r goreuon mewn cyfnod byr.

Tegwch, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Cymru'n genedl groesawgar, yn un sy'n hyrwyddo amrywiaeth, tegwch a chydaddoldeb, gyda dyhead i ddod yn Genedl Noddfa, wedi ymrwymo i Hawliau Dynol a hyrwyddo heddwch. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel rhan o'i deddfwriaeth ddomestig. Rydym wedi ymrwymo i fasnach deg, gwaith teg a chwarae teg. Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn wastad wedi bod yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Rydym yn credu mewn trin pawb yn deg, yn enwedig y rheiny sydd wedi eu hymyleiddio fwyaf. Rydym yn gweithio tuag at Gymru mwy cyfartal, gwlad sy'n sicrhau tegwch mynediad i wasanaethau, mynd i'r afael ag anghydaddoldeb a cheisio canlyniadau tecach ar gyfer ein holl ddinasyddion, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn ein gwaith rhyngwladol a gartref byddwn yn cydnabod cyfraniad ein cymunedau o fudwyr i lesiant Cymru. Yn gynharach eleni, fe wnaethom ni gefnogi Neges Heddwch ac Ewyllys Da Mudiad Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru, i gyrraedd dros 40 o wledydd a 37 miliwn o bobl.

Mae'r ymateb byd-eang i farwolaeth George Floyd a'r materion pwysig a amlygwyd gan fudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn ein hatgoffa nad oes lle i fod yn hunanfodlon. Mae effaith anghymerur COVID-19 ar bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fyd-eang hefyd wedi amlygu ac atgyfnerthu anghydaddoldebau. Mae'r digwyddiadau rhyngblethol hyn wedi ailgynnau galwadau am weithredu i fynd i'r afael ag anghydaddoldeb hiliol yng Nghymru (a ledled y byd). Rhaid i ni wneud mwy i hyrwyddo amrywiaeth, goddefgarwch a chydaddoldeb ym mhopeth a wnawn, ac mae hyn yn cynnwys ein gwaith yn rhyngwladol. Ym mis Mawrth 2020, ymrwymodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i greu Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol i Gymru. Bydd y cynllun yn eiddo i Lywodraeth Cymru gyfan, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig.

Rhaid i ni hefyd wynebu ein hanes ni. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i Gaynor Legall i arwain grŵp gorchwyl a gorffennol i ymgymryd ag archwiliad o henebion a cherfluniau hanesyddol Cymru, ac enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus. Bydd y grŵp yn nodi'r lleoliadau a'r enwau hynny sydd yn gysylltiedig ag hanes cymunedau du yng Nghymru, ac yn arbennig y fasnach mewn caethwasiaeth.

Byddwn yn parhau â'n partneriaethau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr gyda rhanbarth Mbale yn Uganda, a'n dynodiad Masnach Deg (y wlad gyntaf yn y byd i dderbyn y dynodiad hwn). Byddwn yn adeiladu ar y rhain drwy ein Cynllun Gweithredu ar Gymru ac Affrica.

Cymru yw man geni'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac mae Cymru'n parhau i fod yn driw i werthoedd sylfaenol y GIG – gan ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel am ddim i bawb lle bo'r angen. Rydym yn rhannu'r gwerthoedd hyn a'n harbenigedd gydag eraill ac yn eu hyrwyddo yn ein gwaith yn rhyngwladol, gan gynnwys drwy'r gweithgareddau cydweithredol rhwng ein sector iechyd, y sector addysg iechyd

ac Affrica Is-Sahara fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar Gymru ac Affrica. Mae ein haelodaeth o'r Rhwydwaith ar gyfer Awdurdodau Iechyd Lleol a Rhanbarthol Ewrop (EUREGHA) yn ein galluogi i gydweithio a chyfnwid gwybodaeth er mwyn gwella polisi iechyd yn Ewrop.

Ein Camau Gweithredu Tymor byr (2020-21)

- Byddwn yn adlewyrchu camau gweithredu y **Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol**, lle bo hynny'n berthnasol, yn ein gwaith yn rhyngwladol.
- Byddwn yn cydnabod ac yn dathlu ein cymunedau amrywiol a bywiog yng Nghymru drwy ymgyrchoedd a digwyddiadau digidol, yn dathlu dyddiau fel Diwali, ac yn tanlinellu ein perthynas â Bangladesh, Gwlad Pwyl ac Iwerddon yn benodol.
- Byddwn yn hyrwyddo ein hymrwymiad i amrywiaeth drwy annog partneriaethau fel yr un rhwng Llywodraeth Cymru ac Alabama.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol i hyrwyddo ein gwerthoedd a'n hegwyddorion cyffredin, e.e. Wythnos Pride Rhyngwladol, Diwrnod Heddwch Rhyngwladol, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Windrush a thrwy ddigwyddiadau yng Nghymru.
- Byddwn yn edrych ar gefnogi Academi Heddwch Cymru, gan gynnwys sut i hwyluso cysylltiadau â Sefydliadau Heddwch eraill yn fyd-eang.
- Byddwn, drwy ein **Cynllun Gweithredu ar Gymru ac Affrica**, yn hyrwyddo'r cysyniad o Genedl Deg, gan gysylltu Masnach Deg, amrywiaeth a chynhwysiant a chefnogi grymuso menywod yn Lesotho ac Uganda.
- Byddwn yn comisiynu adolygiad cyflym annibynnol o weithgarwch iechyd rhyngwladol presennol a'r seilwaith iechyd rhyngwladol presennol yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn cynnwys mapio rôl Llywodraeth Cymru a'i rhyngwyneb rhwng sefydliadau allweddol sy'n ymwneud ag ymgysylltu rhyngwladol yng Nghymru gyda'r nod o ddatblygu argymhellion i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Rhyngwladol ymhellach.

Tymor Canolig (2022-25)

- Byddwn yn nodi canlwyddiant Deiseb Heddwch Cymru gan weithio gyda phartneriaid yng Nghymru a'r Unol Daleithiau yn 2023-24.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â'r Cenhedloedd Unedig drwy genhadaeth y DU, Banc y Byd ac UNESCO i helpu i hyrwyddo ein gwerthoedd yn rhyngwladol.

Diplomyddiaeth Ddiwylliannol

Mae ein celfyddydau, ein diwylliant, a'n creadigrwydd yn rhoi personoliaeth fyd-eang unigryw i Gymru ac mae'n gryfder enfawr o ran hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd. Fel y genedl gyntaf i wneud diwylliant yn bedwerydd dimensiwn datblygu cynaliadwy drwy ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gan Gymru lawer i'w gynnig i'r byd. Bydd ein dull cydweithredol o ymdrin â chysylltiadau diwylliannol, ein ffocws ar les, a'n hymrwymiad i feithrin goddefgarwch drwy'r celfyddydau, a'n gwaith arloesol yn y Celfyddydau mewn lechyd, yn arbennig o berthnasol wrth inni adfer yn sgil y pandemig COVID-19.

Mae ein digwyddiadau rhyngwladol fel Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Gŵyl Lenyddol y Gelli, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn arddangos ein diwylliant a'n treftadaeth greadigol a bywiog. Rydym hefyd wedi cefnogi gwyliau newydd fel FOCUS Cymru a Gŵyl y Llais, gan ddarparu llwyfannau i ddod â diwydiant cerddoriaeth y byd i Gymru ac arddangos gwaith cyfoes Cymreig. Rydym wedi cefnogi ein digwyddiadau i arloesi ac addasu yn ystod y pandemig, gan sicrhau cyrhaeddiad ac effaith ddigidol enfawr o ganlyniad. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys 85 o ddarllediadau 'Hay on WiFi's' o Wyl y Gelli ar draws 10 diwrnod, gyda dros hanner miliwn o wylwyr ledled y byd. Rydym am barhau i gefnogi arloesedd digidol a rhaglenni hybrid wrth inni wella o'r pandemig a thu hwnt.

Mae Cymru Greadigol, ein hasiantaeth fewnol yn Llywodraeth Cymru a lansiwyd ym mis Ionawr 2020, yn gyfrifol am hyrwyddo ein sector creadigol yng Nghymru ar lawr gwlad ac yn rhyngwladol. Bydd Cymru Greadigol yn sbarduno twf ar draws y diwydiannau creadigol, gan adeiladu ar lwyddiant presennol a datblygu talent a sgiliau newydd, gyda chenhadaeth i leoli Cymru fel un o'r lleoedd

gorau i fusnesau creadigol ffynnu. Byddwn yn cefnogi Cymru Greadigol i hyrwyddo Cymru i'r byd, gan gysylltu ac arddangos ein meddyliau, ein talent a'n busnesau creadigol gorau.

Mae ein sector creadigol yn gaffaeliad enfawr wrth hyrwyddo Cymru'n fyd-eang. Mae ein sefydliadau cenedlaethol, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Opera Cenedlaethol Cymru, Cwmni Dawns Cenedlaethol yn hyrwyddo cryfder creadigol Cymru pan ar daith yn rhyngwladol. Mae cwmnïau megis Theatr Hijinx, NoFit State, Jukebox Collective a Rhaglen Gelfyddydau Hanes Pobl Dduon Cymru Cyngor Hil Cymru yn amlygu amrywiaeth fywiog y sector. Mae gan Gymru enw da yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu drama deledu o ansawdd uchel, gyda stiwdios mawr fel Fox, NBC Universal, Netflix a HBO yn defnyddio Cymru fel lleoliad cynhyrchu. Mae Cymru hefyd wedi sefydlu hunaniaeth ddiwylliannol gref, sydd wedi'i phortredu mewn cynrychiadau fel Y Gwyll, Un Bore Mercher a Craith, ac mewn sioeau teledu rhyngwladol enwog, gan gynnwys His Dark Materials, Doctor Who a Sherlock. Mae ymwelwyr rhyngwladol yn profi cyfoeth ein treftadaeth yn ein safleoedd Amgueddfa Cymru byd-enwog yma yng Nghymru, a thrwy ymweld ag arddangosfeydd teithiol yn fyd-eang. Yn 2019, cyrhaeddodd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru y penawdau yn fyd-eang drwy ennill Amgueddfa'r Flwyddyn yr Art Fund. Mae arddangosfa Artes Mundi, sy'n cael ei chynnal bob dwy flynedd, yn dathlu artistiaid o bob cwr o'r byd.

Byddwn yn cydlynu ein gweithgareddau rhyngwladol ac yn grymuso sefydliadau allweddol yng Nghymru, gan gynnwys chwaraeon a diwylliant, i helpu i agor drysau a mynd i farchnadoedd newydd, anodd eu cyrchu i chwyddo llais Cymru dramor, gan gynnwys cefnogi, lle y bo'n briodol, y gwaith o gyflawni ein Cynllun Gweithredu ar Allforio.



Ein Camau Gweithredu

Tymor Byr (2020-21)

- Byddwn yn datblygu partneriaethau strategol gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r British Council Cymru i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu halinio'n well yn rhyngwladol, gan gynnwys sicrhau presenoldeb diwylliannol mewn gweithgareddau rhyngwladol a arweinir gan Lywodraeth Cymru fel Cymru ym Mlwyddyn yr Almaen 2021 ac Expo y Byd Dubai 2021-22.
- Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn cefnogi gweithgareddau a arweinir gan bartneriaid, megis Blwyddyn Cymru mewn Cysylltiadau Celtaidd yn 2022, Cymru yn Fenis a Chymru yng Nghaeredin a rhaglenni gwaddol cysylltiedig. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r British Council i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n dda yn ei menter y DU yn Awstralia 2021.
- Byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno digwyddiad rhithwir cenedlaethol dan arweiniad BBC Cymru ddechrau 2021.
- Byddwn yn datblygu Dydd Gŵyl Dewi rhithiol byd-eang gydag amrywiaeth o bartneriaid yn 2021 ac yn parhau i gyflawni a chefnogi gweithgareddau Wythnos Cymru. Byddwn yn darparu adnoddau i'r Swyddfa Dramor, Cymanwlad a Datblygu, y British Council a Llysgenadaethau i hyrwyddo ein negeseuon.

Tymor Canolig (2022-25)

- Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth o Gymru mewn digwyddiadau rhwydweithio diwylliannol allweddol ar gyfer cynulleidfaoedd byd-eang fel ISPA (Cymdeithas Ryngwladol y Celfyddydau Perfformio), IETM (Rhwydwaith Rhyngwladol y Celfyddydau Perfformio Cyfoes) ac Aerowaves.
- Byddwn yn gwahodd partneriaid a dirprwyaethau rhyngwladol i brofi ein diwylliant yn uniongyrchol, gan gynnwys yn ein Heisteddfodau a Gŵyl y Gelli, gan ganolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng diwylliant, lles, ieuenctid a chymuned.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r British Council i annog cynnwys Cymreig yn Nhyrnhorau Diwylliannol y British Council, yn enwedig pan fyddant yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol.
- Byddwn yn cynnal ymarfer mapio gweithgareddau dros y pum mlynedd nesaf er mwyn alinio ac ymhelaethu'n well ar bresenoldeb Cymru yn rhyngwladol gyda'n partneriaid.
- Byddwn yn rhoi adnoddau i sefydliadau celfyddydol a chwaraeon Cymru i ehangu ein neges. Byddwn yn meithrin gwell perthynas â sefydliadau amatur rhagorol allweddol fel y gallant berfformio ar ran ein cenedl pan fyddant yn mynd dramor.
- Byddwn yn cefnogi gwaith Cymru Greadigol yn rhyngwladol ar draws is-sectorau blaenoriaeth ffilm a theledu; digidol a gemau cyfrifiadurol; cerddoriaeth; a chyhoeddi gyda Chyngor Llyfrau Cymru.
- Byddwn yn cefnogi Cymru Greadigol i hyrwyddo cymunedau amrywiol, creadigol ac arloesol Cymru i'r byd yn ystod Gŵyl 2022.
- Byddwn, drwy ein **Cynllun Gweithredu ar Berthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol â Blaenoriaeth**, yn annog cydweithio diwylliannol rhwng Cymru a chysylltiadau rhanbarthol â blaenoriaeth.

Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg a'n dwyieithrwydd yn sicr yn rhan o'n cymeriad unigryw. Mae gennym stori ysbrydoledig i'w hadrodd am sut rydym yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith drwy gynllunio a hyrwyddo iaith yn gynyddol. Rydym yn falch o'n system addysg drochi cyfrwng Cymraeg sy'n helpu i greu miloedd o siaradwyr Cymraeg newydd bob blwyddyn. Gwelwn gyfle hefyd i Gymru ddod yn fainc arbrofi i ddatblygu technoleg ddigidol ddwyieithog ac amlieithog o gofio bod y Gymraeg yn cydfodoli ochr yn ochr â'r Saesneg, sef iaith fyd-eang. Mae stori'r Gymraeg yn taro deuddeg gyda chenchedloedd ledled y byd sy'n ddwyieithog neu'n amlieithog ac sydd – mewn rhai achosion – yn wynebu heriau i gefnogi'r defnydd o ieithoedd brodorol, rhanbarthol neu leiafrifol yng nghyd-destun globaleiddio. Gall Cymru hefyd ddysgu o brofiad gwledydd dwyieithog ac amlieithog eraill.

Mae darparu mwy o gyfleoedd i'n hartistiaid berfformio drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y byd yn un o bileri canolog ein dull gweithredu. Dyma oedd thema ein symposiwm Mamiaith a gynhaliwyd ym Methesda y llynedd, a welodd yr artist cenedl gyntaf o Ganada, Jeremy Dutcher, yn perfformio yn ei iaith Maliseet frodorol. Mae beirdd fel ein Bardd Cenedlaethol, Ifor ap Glyn, wedi mynd â barddoniaeth Gymraeg i Washington DC, Brwsel, Dilyn a Berlin ac yn 2019 gwelwyd partneriaeth ryngwladol gyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol gydag Iwerddon a chwmmi dawns awyr Fidget Feet.



Ein Camau Gweithredu

Yn ogystal â'r camau gweithredu a amlinellir isod, byddwn, drwy'r cyfleoedd a amlinellir yn y camau gweithredu eraill yn y cynllun hwn, yn amlygu dwyieithrwydd Cymru a'n cefnogaeth ragweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Tymor Byr (2020-21)

- Byddwn yn ymgysylltu ag UNESCO yn ystod ei baratodau ar gyfer y degawd ieithoedd brodorol sy'n cychwyn yn 2022.
- Byddwn yn lleadaenu ein fideo yn cyflwyno'r Gymraeg i'r byd i'n swyddfeydd rhyngwladol i'w defnyddio fel rhan o ddiplomyddiaeth gyhoeddus.
- Byddwn yn cynnal cynhadledd ryngwladol y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yng Nghymru yn ystod haf 2021.

Tymor Canolig (2022-25)

- Byddwn yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o hyrwyddo buddiannau ieithoedd lleiafrifol yn fyd-eang, ac yn cymryd rhan weithredol yn ystod degawd ieithoedd brodorol UNESCO.
- Byddwn yn parhau drwy ein cytundebau dwyochrog gydag Iwerddon, Quebec, Llydaw a Gwlad y Basg, i rannu profiadau a dysgu ar gynllunio ieithyddol.
- Byddwn yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith y Rhwydwaith Rhyngwladol i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol.

Diplomyddiaeth drwy Chwaraeon

Mae gan chwaraeon y gallu i uno a chyffroi pobl ym mhob cwr o'r byd, i godi proffil gwlad bron dros nos ac i helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Amlygodd adroddiad Baromedr Cymell Tawel Cymru y British Council⁴ fod chwaraeon yn gryfder arbennig i Gymru yn rhyngwladol, ac mae ein llwyddiannau mewn rygbi, pêl-droed, taekwondo, beicio a nofio, ymhlith disgyblaethau eraill wedi helpu i hybu ein statws rhyngwladol a'n henw da. Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw fel cenedl fach sydd ag ôl troed chwaraeon enfawr, un o ddim ond ychydig o'r gwledydd bach sy'n cystadlu mewn twrnameintiau byd-eang proffil uchel, gan gynnig cyfle i ddiplomyddiaeth gyhoeddus.

Fe wnaeth ymgysylltiad cymunedol Undeb Rygbi Cymru yn y blynyddoedd cyn Cwpan Rygbi'r Byd yn hydref 2019 sicrhau croeso a brwdfrydedd anhygoel i Gymru yn ystod y twrnaint. Teithiodd taith fasnach fawr a llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru i Japan i gryfhau cysylltiadau economaidd, gan gynnwys 17 o fusnesau o sectorau technoleg a digidol, creadigol, gofal iechyd a gweithgynhyrchu uwch Cymru. Hefyd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru raglen o ddigwyddiadau yn Tokyo, gan gynnwys Tŷ Cymru (Dôm Cymru) yn arddangos diwylliant amrywiol Cymru, a hefyd yn cefnogi digwyddiadau mewn rhannau eraill o Japan a oedd wedi rhoi croeso mor gynnes i dîm a phobl Cymru. Drwy ddefnyddio dull Tîm Cymru, roeddem yn gallu darparu llwyfan i sefydliadau ac unigolion eraill hyrwyddo Cymru mewn ffordd nad ydym erioed wedi'i wneud o'r blaen, i ddangos i'r byd ein bod yn uchelgeisiol, yn flaengar ac am barhau i fod â chysylltiad byd-eang. Byddwn yn parhau i ddefnyddio llwyfan digwyddiadau chwaraeon mawr i hyrwyddo Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

Ein Camau Gweithredu Tymor Byr (2020-21)

- Byddwn yn gweithio ar ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a Japan i gadarnhau gwaddol Cwpan Rygbi'r Byd 2019, a defnyddio'r Gemau Olympaidd/Gemau Paralympaidd fel llwyfan i godi proffil Cymru yn Japan ymhellach.
- Byddwn yn bartner gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i wneud y gorau o gyfleoedd i arddangos Cymru yn y cyfnod cyn ac yn ystod Ewro 2021.

Tymor Canolig (2022-25)

- Byddwn yn defnyddio Gemau'r Gymanwlad 2022 ac, os bydd Cymru'n llwyddo yn y rowndiau i fynd yno, Cwpan y Byd FIFA Qatar 2022 i hyrwyddo Cymru, gan weithio gyda phartneriaid perthnasol i gyflawni'r gweithgaredd hwn.
- Byddwn yn ceisio hyrwyddo Cymru yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yn 2023 a Gemau Olympaidd/Paralympaidd 2024, ill dau yn cael eu cynnal yn Ffrainc.
- Byddwn yn gweithio gyda'n tîm Digwyddiadau Mawr a chyrrff arweiniol y sector i ddenu chwaraeon rhyngwladol, yn ogystal â digwyddiadau busnes a diwylliannol i Gymru.
- Byddwn yn cynnull rhanddeiliaid i hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol er mwyn sicrhau'r adnoddau a'r effaith fwyaf posibl.
- Byddwn yn annog ac yn datblygu cydweithio pellach rhwng chwaraeon a'r celfyddydau mewn digwyddiadau allweddol.

⁴ https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/baromedr_cymell_tawel_cymru_2018.pdf

Addysg ac Ieuenctid

Mae gan y Llywodraeth rôl ganolog i'w chwarae o ran darparu'r fframwaith cywir ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr, arloeswyr, artistiaid, pobl o fyd chwaraeon a phobl a all ddatblygu Cymru sydd hyd yn oed yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae datblygu Cwricwlwm Cymru 2022 a "Her Fyd-eang" Bagloriaeth Cymru yn rhoi cyfle enfawr i ni sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd; byd lle mae lleisiau cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu gwerthfawrogi a'u hyrwyddo. Mae'r Athro Charlotte Williams OBE wedi cael ei hapwyntio i arwain gweithgor newydd er mwyn cynghori ar a gwella'r themâu dysgu yn ymwneud â chymunedau a phrofiadau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws pob rhan o'r cwricwlwm ysgolion. Drwy ein haelodaeth o'r Atlantic Rim Collaboratory, rydym hefyd yn cyfrannu at y ddeialog fyd-eang ar hyrwyddo gwerthoedd tegwch, rhagoriaeth, llesiant, cynhwysiant, democratiaeth a hawliau dynol myfyrwyr yn fyd-eang. Drwy'r llwyfan hwn, rydym yn rhannu arferion da Cymru ac yn dysgu gan wledydd eraill.

Mae myfyrwyr rhyngwladol ym Mhrifysgolion a Cholegau Cymru yn cyfoethogi ein hamrywiaeth ddiwylliannol ac yn cyfrannu'n allweddol at ein heconomi allforio. Mae effaith COVID-19 ar ein recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn parhau i fod yn ansicr ond rydym yn dal yn ymrwymedig i annog myfyrwyr rhyngwladol i astudio yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith Cymru Fyd-eang i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio yn rhyngwladol.

Mae partneriaethau Byd-eang Cymru/Llywodraeth Cymru gyda rhaglenni ysgoloriaeth ryngwladol pwysig Fulbright, Gilman a Chevening yn ariannu symudedd myfyrwyr ac ymchwilwyr rhwng Cymru, yr Unol Daleithiau, Fietnam ac India gyda'r nod o ddatblygu cysylltiadau addysgol hirdymor. Mae ein rhaglen Seren – cydweithrediad rhwng ysgolion y wladwriaeth, colegau, prifysgolion, cyn-fyfyrwyr, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector – yn darparu cyfleoedd rhyngwladol amhrisiadwy i fyfyrwyr Cymru. Mae menter 'Cymru Fyd-eang Darganfod' hefyd yn darparu cyllid i brifysgolion Cymru roi cyfleoedd symudedd tymor byr i fyfyrwyr israddedig Cymru i weithio, astudio neu wirfoddoli mewn gwlad arall. Mae Cronfa Symudedd Ymchwilwyr Cymru Fyd-eang yn cefnogi symudedd ymchwilwyr rhwng prifysgolion yng Nghymru a gwledydd rhyngwladol i hwyluso cyfleoedd ymchwil i adeiladu ar enw da cynyddol Cymru yn rhyngwladol a'i wella.

Mae'r holl raglenni a'r mentrau hyn yn adeiladu pontydd rhwng gwledydd, gan gysylltu ein pobl ifanc yn rhyngwladol a chreu cysylltiadau a phrofiadau a fydd yn para'n hir. Rydym am adeiladu ar hyn drwy gefnogi mwy o rwydweithiau a mentrau sy'n rhoi llais i'n pobl ifanc yn rhyngwladol.

Ein Camau Gweithredu Tymor Byr (2020-21)

- Byddwn yn cefnogi gweithgarwch rhwydwaith Arweinwyr y Dyfodol Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhyngwladol yn Fforwm Ieuenctid y Cenedloedd Unedig yn Efrog Newydd ac Uwchgynhadledd One New World ym Munich yn 2021.
- Byddwn yn cefnogi negeseuon marchnata ôl-19 Cymru Fyd-eang (grŵp partneriaeth byd-eang Prifysgolion Cymru) gan ddefnyddio ein rhwydweithiau yn rhyngwladol, yn cynnwys y ffaith bod mwy o fusnesau newydd yn dechrau o brifysgolion yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r DU.
- Byddwn yn sicrhau bod ieuenctid yn chwarae rhan ganolog yn ein digwyddiadau mawr – e.e. Cymru yn yr Almaen, Expo y Byd a COP26.
- Byddwn yn mynychu ac yn cymryd rhan yn Uwchgynhadledd yr Atlantic Rim Collaboratory er mwyn parhau i gyfnewid arferion da a dysgu gan aelodau eraill.

Tymor Canolig (2022-25)

- Lle mae hynny'n bosibl, byddwn yn cydweithio ar ddigwyddiadau a mentrau ar y cyd gyda Chymru Fyd-eang mewn gwledydd sydd â blaenoriaeth, gan ganolbwyntio ar Ogledd America, India a Fietnam.
- Byddwn yn cefnogi gwaith yr Urdd yn rhyngwladol drwy bartneriaeth strategol.
- Byddwn yn annog cysylltiadau rhyngwladol y Senedd Ieuenctid ac yn hwyluso cyflwyniadau'n rhyngwladol.
- Byddwn yn ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr yn rhyngwladol drwy'r **Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu â Chymru ar Wasgar** mewn partneriaeth â phrifysgolion Cymru.
- Byddwn yn parhau i roi cyfleoedd i'n pobl ifanc gael profiad rhyngwladol drwy rwydwaith Seren a 'Cymru Fyd-eang Darganfod', ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc o'r Unol Daleithiau, Fietnam, India, a'r UE astudio yng Nghymru drwy ysgoloriaethau fel Gilman, Fulbde, Chevening a Rhaglen Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang.

Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesedd (Diplomyddiaeth drwy Wyddoniaeth)

Mae chwilio am wybodaeth wedi bod yn digwydd ymysg diwylliannau, pobloedd a gwleidyddiaeth ledled y byd am filoedd o flynyddoedd. Mae ein prifysgolion yn sefydliadau sydd â chysylltiadau byd-eang, maent ar flaen y gad o ran cydweithredu rhyngwladol ac maent yn denu swm sylweddol o reffeniw tramor. Drwy ganolbwyntio ar degwch a rhagoriaeth ac ymchwil sy'n arwain y byd, mae ein prifysgolion yn helpu i newid cymdeithasau a bywydau pobl er gwell. Mae gwaith Cymru Fyd-eang gyda Fietnam i ddatblygu ei seilwaith addysgol drwy gyfleoedd hyfforddi, ymchwil, cydweithredu a chyfnwidiadau academaidd yn un o sawl enghraifft o hyn.

Amlygodd ein cyhoeddiad 'Diogelu Ymchwil ac Arloesedd ar ôl Ymadael â'r UE' yr effaith drawiadol a'r cyrhaeddiad rhyngwladol y mae sylfaen ymchwil Cymru wedi'i chael ers datganioli; gan gynnwys y cyfraniad sylweddol y mae wedi'i wneud at dyfu perfformiad arloesedd Cymru yn Ewrop. Ni bellach yw'r mwyaf effeithlon o wledydd y DU o ran trosi lefelau cymharol fach o gyllid yn ymchwil uchel ei barch. Yn 2016, cawsom y gyfran uchaf o gydweithredu rhyngwladol ar draws holl wledydd cyfansoddol y DU, gyda bron i 70% o'i chyhoeddiadau yn cynnwys cyd-awduron o'r tu hwnt i Gymru. Mae Cymru wedi llwyddo i dderbyn cyllid cystadleuol gan raglen Horizon 2020 Ewrop sydd wedi cefnogi dros 2,820 o gysylltiadau cydweithredol rhwng Cymru a 70 o wledydd eraill. Mae sefydliadau Cymru yn ymwneud â phrosiectau Horizon 2020 sy'n werth dros 1.4 biliwn ewro.

Sefydlwyd ein rhaglen Sêr Cymru a gydnabyddir yn rhyngwladol yn 2012 i helpu i adeiladu sylfaen wyddoniaeth gref a dynamig sy'n cefnogi datblygiad economaidd a chenedlaethol Cymru. Ers hynny, mae'r buddsoddiad o dros £100m wedi creu momentwm sylweddol. Erbyn 2019, roedd Sêr Cymru wedi cefnogi tri Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol, 11 o gadeiriau ymchwil a thros 120 o gymrodyr (ymchwilwyr gyrfa cynnar i ganolig). Dyfarnwyd y cymrodoriaethau cystadleuol hyn i ymchwilwyr o 29 o wledydd. Mae'r cymrodoriaethau hyn nid yn unig yn cefnogi ymchwilwyr sy'n newydd i Gymru, maent hefyd wedi galluogi ymchwilwyr Prydeinig i ddychwelyd i'r DU ar ôl ymgymryd â rolau dramor. Ar ddechrau 2020, dyrannwyd y gyfran nesaf o gyllid i gefnogi cymrodoriaethau diwydiannol, dyfarniadau seilwaith a nifer o ddyfarniadau partneriaeth strategol.

Mae ein prifysgolion hefyd yn parhau i chwarae rhan bwysig yn ein hymateb i'r pandemig gyda myfyrwyr, staff a chyfleusterau sefydliadau yn gwneud cyfraniadau pwysig mewn ymchwil, meithrin gallu gofal iechyd, cymorth cymunedol a llawer o weithgareddau eraill. Fel rhan o raglen Sêr Cymru fe lansion ni'r alwad COVID-19 gwerth £1.3 miliwn ym mis Mehefin eleni. Bydd llawer o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio gyda chydweithredwyr ledled y byd – gan dynnu sylw at bwysigrwydd dysgu rhyngwladol i fynd i'r afael â heriau byd-eang cyffredin.

Mae ein statws rhyngwladol mewn ymchwil ac addysg uwch yn sefyllfa sydd o'r pwys mwyaf heddiw wrth i'r sector wynebu'r heriau niferus y mae Brexit a COVID-19 yn eu cyflwyno. Mae hefyd yn rhan annatod o'n brand cenedlaethol ac yn gatalydd ar gyfer sicrhau partneriaethau rhyngwladol cryf yn y dyfodol.

Ein Camau Gweithredu Tymor Byr (2020-21)

- Byddwn yn parhau, drwy ein **Cynllun Gweithredu ar Berthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol â Blaenoriaeth**, i annog arloesi a chydweithredu, drwy fentrau fel galwad ar y cyd am brosiectau gyda Llywodraeth Québec a thrwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar Seiber a Thechnoleg gyda Llywodraeth Fflandrys.
- Byddwn, drwy gadeirio Menter Vanguard 2020, yn parhau i annog prosiectau cydweithredol, gan hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau galluogi allweddol.
- Byddwn yn parhau, drwy ein rhwydwaith a'n partneriaid rhyngwladol, i rannu'r hyn a gaiff ei ddysgu ar COVID-19 i'n helpu i adfer.
- Byddwn yn arddangos ein galluoedd ymchwil blaenllaw yn y byd Prifysgolion yn Expo y Byd Dubai 2021-22.
- Drwy ein Datganiad o Fwriad ar y cyd ag Iwerddon, byddwn yn lansio darlithoedd cyntaf Dydd Gŵyl Dewi a Dydd San Padrig yn Iwerddon a Chymru.

Tymor Canolig (2022-25)

- Byddwn yn cynhyrchu adnoddau i ddangos effaith ymchwil yng Nghymru, sy'n dangos llwyddiant allbwn ein prifysgolion.
- Byddwn yn parhau â rhaglen Sêr Cymru tan fis Mawrth 2023 ac yn archwilio ffyrdd o barhau â'r rhaglen y tu hwnt i 2023 (diwedd cyfnod ariannu ERDF) gan ddal i ganolbwyntio'n rhyngwladol mewn meysydd perthnasol.
- Bydd ein rhwydwaith rhyngwladol yn parhau i gefnogi ein prifysgolion drwy hwyluso cyflwyniadau rhyngwladol ac annog partneriaethau'n fyd-eang.

Cyfathrebu a Brandio

Cyfathrebu'r Llywodraeth

Yn y tymor byr, wrth i ni adfer o COVID-19, bydd cyfathrebu digidol dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn ganolog i gyflawni ein holl gynlluniau gweithredu. Bydd pob cynllun yn cael ei gefnogi gan raglen o weithgarwch digidol a gynlluniwyd i gyfleu ein gwerthoedd, ein nodau a'n huchelgeisiau, gan ddefnyddio ein swyddfeydd rhyngwladol a gweithio gyda'n partneriaid i ymgysylltu â'n marchnadoedd allweddol. Yn ganolog i'r gweithgaredd hwn bydd tair ymgyrch flynyddol sy'n canolbwyntio ar ddiwyddiadau carreg filltir fel Dydd Gŵyl Dewi, ac ymgyrchoedd cyfathrebu thematig dan arweiniad y Llywodraeth sy'n adlewyrchu tair colofn y Strategaeth Rhyngwladol – creadigrwydd, cynaliadwyedd a thechnoleg. Yn ogystal â'r tair ymgyrch flynyddol, byddwn yn ymateb i gyfleoedd sy'n codi, ac yn gweithio mewn partneriaeth lle bo hynny'n berthnasol i rannu neges ryngwladol Llywodraeth Cymru.

Brand Cymru Wales

Er mwyn i'n hymgysylltiad rhyngwladol fod yn effeithiol, mae'n bwysig hefyd, ynghyd â'n partneriaid, ein bod yn parhau i ysgogi brand a llais ein cenedl i adrodd hanes Cymru ar lwyfan y byd. Mae brand Cymru Wales, sydd wedi'i ddatblygu dros y pum mlynedd diwethaf, yn sicrhau dull disgybledig, unol a chydlynol o adeiladu delwedd Cymru fel lle cyfoes ac ysbrydoledig i ymweld ag ef, i weithio ynddo, i fuddsoddi ynddo ac i astudio ynddo. Mae'r strategaeth brand yn adlewyrchu'r ffaith bod ystod eang o ffactorau yn dylanwadu ar enw da gwlad; mae gan ansawdd ein llwyddiannau chwaraeon, ein diwylliant, ein creadigrwydd, ein cynnyrch a'n croeso i gyd ran i'w chwarae wrth lunio canfyddiadau o Gymru ac yn y pen draw ein henw da a'n perfformiad ehangach. Ein hamcanion drwy ein holl waith brand a chyfathrebu yw:

- Codi ein statws
- Peri syndod ac ysbrydoli
- Newid canfyddiadau
- Gwneud pethau da
- Bod yn Gymru yn ddigamsyniol

Mae'r brand hefyd yn ceisio portreadu bod Cymru'n wlad o'r iawn ryw, yn greadigol ac yn fyw gydag arloesedd a chyfleoedd i'r dyfodol. Mae'r brand yn gynhwysol ac yn hyrwyddo Cymru yn ei chyfanrwydd ac mae wedi cael ei gofleidio gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chan gyrrff allanol a'r sector preifat. Defnyddir y brand hefyd i hyrwyddo Cymru o fewn sectorau penodol – gan Groeso Cymru, Masnach a Buddsoddi Cymru, Bwyd a Diod Cymru, Astudio yng Nghymru, Cymru Greadigol ac yn fwyaf diweddar gan y sector Diwylliannol.

Mae gan y brand ymdeimlad cryf o le ond mae hefyd yn gyfoes ac yn arloesol – gan ddefnyddio ein treftadaeth i yrru ein delwedd yn ei blaen. Mae hunaniaeth y brand yn seiliedig ar logo 'Draig', mae llawysgrifau Cymraeg canoloesol yn dylanwadu ar y ffont a ddefnyddiwn i adrodd ein stori, ac mae paledi lliw yn cael eu hysbrydoli gan dirwedd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'n hymgyrchoedd marchnata sy'n digwydd drwy'r brand yn cyfleu neges 'Dyma Gymru' – sy'n gweithredu fel datganiad o hyder yn yr hyn ydym, a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i gyflawni ymgyrchoedd marchnata Cymru Wales i godi proffil Cymru mewn marchnadoedd allweddol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, gan roi amrywiaeth o offer ac asedau creadigol iddynt fel y gallant weithio gyda ni i helpu i rannu stori Cymru.

Drwy gyfathrebu brand Cymru Wales a gwaith cyfathrebu gan y llywodraeth, byddwn yn cyfleu ein bod yn wlad sydd ag ymdeimlad cryf o werthoedd sy'n ein diffinio, yn seiliedig ar egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac ymdeimlad o fyw cynaliadwy a chyfrifol.

Llywodraethiant a Gweithio gydag Eraill

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Ryngwladol, ymgynghorwyd yn eang â bron i 600 o bartneriaid a rhanddeiliaid. Wrth gyflawni, rydym yn awyddus i weld yr ymgysylltu hwn yn parhau drwy strwythur llywodraethu ffurfiol ar gyfer ein prif bartneriaid a rhanddeiliaid.

Byddwn yn canolbwyntio gweithgarwch ar weithio gyda'r cysylltiadau â blaenoriaeth⁵ a amlinellir yn ein strategaeth, yn ogystal â defnyddio llwyfannau a ddarperir gan ddigwyddiadau byd-eang/rhyngwladol fel Expo y Byd Dubai 2021-22 a COP26. Byddwn hefyd yn cryfhau'r ymgysylltu â'r corfflu diplomyddol yn Llundain ac yn archwilio prosiectau cydweithio/prosiectau ar y cyd, megis yr alwad ddiweddar ar y cyd rhwng Québecipec a Chymru am brosiectau.

Bydd ein rhwydwaith o swyddfeydd rhyngwladol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r British Council i ddylanwadu ar eu rhwydwaith rhyngwladol a phan fo'n briodol, byddwn yn cydweithio ar ddigwyddiadau a mentrau ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i Gymru.



Ein Camau Gweithredu

- Byddwn yn cynnal dau gyfarfod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn cydlynu ein gweithgareddau ar draws Llywodraeth Cymru a chyda sefydliadau eraill sy'n gweithio dramor, gan gynnwys addysg, cymdeithas sifil, sefydliadau chwaraeon a diwylliannol.
- Byddwn yn cynnull Gweithgorau Rhanddeiliaid o gwmpas digwyddiadau penodol fel Cymru yn yr Almaen 2021, Expo y Byd Dubai 2021-22 a COP26.
- Byddwn yn parhau i annog cydweithredu diwylliannol, ymchwil ac addysgol a chyfnewid drwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Datganiad o Fwriad presennol. Byddwn yn cyhoeddi datganiad a chynllun gweithredu newydd ar y cyd ag Iwerddon yn hydref 2020.
- Byddwn, lle bo hynny'n briodol, yn gweithio mewn partneriaeth ag adrannau Llywodraeth y DU a'r British Council i helpu i gyflawni'r cynllun gweithredu hwn a hyrwyddo asedau unigryw ac amrywiol Cymru.
- Byddwn yn cryfhau ymhellach ein perthynas â'r corfflu diplomyddol yn Llundain, ac â'r Prif Gonswliaid a'r Conswliaid Anrhydeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ein cysylltiadau strategol allweddol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein swyddfeydd rhyngwladol yn ymgorffori'r cynllun hwn yn eu Cynllunio Busnes, gan ganolbwyntio ar y meysydd yn y cynllun hwn lle byddant yn ychwanegu'r gwerth mwyaf yn eu hardaloedd priodol.

⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/strategaeth-ryngwladol-i-gymru.pdf> Gweler Atodiad B

Gwerthuso a Monitro

Mae'n anodd gwerthuso effaith diplomyddiaeth gyhoeddus. Mae ymgysylltu rhyngwladol o'r math hwn yn aml yn hirdymor ei natur, gan ysgogi dylanwad dros amser, sy'n dibynnu ar feithrin cysylltiadau effeithiol.

Ar lefel y DU mae'n bosibl olrhain dylanwad rhyngwladol drwy fynegeion a ddatblygwyd gan Portland, Elcano, ac eraill. Gwneir llai o ymchwil ar lefel Gweinyddiaeth Ddatganoledig neu ranbarthol. Mae Baromedr Pŵer Meddal British Council Cymru⁶ wedi cymharu perfformiad Cymru â Llywodraethau rhanbarthol a datganoledig eraill.

Rydym wedi cymryd rhan yn ddiweddar ym mynegai Anholt GfK a disgwylir y canlyniadau yn yr hydref. Mae'r mynegeion hyn yn ddefnyddiol wrth bennu'r cyd-destun rhyngwladol rydym yn gweithio o'i fewn a chryfder ein dylanwad a'n henw da. Nid ydynt o reidwydd yn dweud wrthym am effaith gweithgarwch/ymyriad gwlad neu lywodraeth. Gall digwyddiadau byd-eang effeithio ar ganfyddiad o wlad yn gadarnhaol (llwyddiant chwaraeon er enghraifft) ac yn negyddol a gallant fod yn llawer mwy effeithiol nag unrhyw ymyriad/gweithredu gan y llywodraeth.

Mae Budd o Ddylanwad yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i olrhain effaith gweithgarwch/ymyrraeth ryngwladol, yn ogystal â'r Budd o Fuddsoddiad traddodiadol. Gall metrigau perthnasol gynnwys ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol ac arolygon dilyn i fyny ymysg rhai sy'n mynychu digwyddiad, faint o gydweithio a gynhyrchwyd, neu dystiolaeth o newid cadarnhaol yn dilyn digwyddiad neu weithgaredd.

Ein Camau Gweithredu

- Byddwn yn cynnwys metrigau Budd o Ddylanwad yn ein gwerthusiadau o ddiwyddiadau a gweithgarwch allweddol yn rhyngwladol (e.e. Expo y Byd Dubai 2021-22 a Cymru yn yr Almaen 2021).
- Byddwn yn gwerthuso canlyniadau arolwg Anholt ac yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio arolygon i olrhain safle Cymru o'i chymharu â gwledydd eraill, dros y pum mlynedd nesaf.
- Byddwn yn gwerthuso ein camau gweithredu yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cynnal asesiad effaith integredig ar gyfer yr holl gynlluniau gweithredu.

⁶ https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/baromedr_cymell_tawel_cymru_2018.pdf

Casgliad

Bydd COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar ein gallu i ymgymryd â gweithgarwch rhyngwladol yn ein ffordd arferol am beth amser i ddod. Bydd angen inni barhau'n ystwyth ac yn arloesol yn y misoedd i ddod. Mae'r cynllun hwn yn ddogfen fyw a fydd yn addasu i'r cyd-destun rhyngwladol sy'n esblygu.

Mae rhai o'n heriau mwyaf yn heriau a rennir gan eraill – ac nid yw COVID-19 yn eithriad. Nid dyma'r amser i fod yn fewnblyg. Dyma'r amser i estyn allan mewn undod â'n cyfeillion rhyngwladol, i barhau i adeiladu pontydd a phartneriaethau sy'n fuddiol, y naill i'r llall. Rydym wedi parhau i edrych tuag allan, i ddysgu gan ein ffrindiau rhyngwladol ac i gynnig cymorth i eraill drwy gydol y pandemig, ac mae ein penderfyniad i gyfranogi yn y gymuned fyd-eang yn parhau mor gryf ag erioed.

Drwy gydweithio, mewn partneriaeth â'n busnesau a'n hentrepreneuriaid byd-eang, ein perfformwyr a'n hartistiaid, ein sefydliadau addysg uwch/prifysgolion, ein hymchwilyr, ein cyn-fyfyrwyr, ein pobl o fyd chwaraeon, arweinwyr y dyfodol, gweithwyr cymorth a chymdeithas sifil gallwn sicrhau bod llais Cymru yn parhau'n gryf ac yn hyderus. Mae'r holl elfennau hyn yn gryfach gyda'i gilydd, maent yn atgyfnerthu ei gilydd ac yn helpu i dynnu sylw at Gymru fel lle i fuddsoddi ynddo, astudio ynddo ac ymweld ag ef. Gyda'i gilydd maent yn adrodd hanes gwlad greadigol, gyfoes ac o ansawdd uchel, sy'n falch o bwy ydym ni ac yn esblygu ar gyfer y dyfodol. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod hanes cryf Cymru o ryngwladoliaeth yn parhau, a chyda'i gilydd maent yn dod â budd yn ôl i bobl Cymru a'r byd heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

